



Technoleg Glyfar, Gwnaethpwyd i Ofalu



Notifier

Derbynnydd Larwm Cludadwy

Canllaw
Rhaglennu v1.0



Mae'r Notifier yn dderbynnydd larwm cludadwy arloesol, wedi'i gynllunio i wneud gofal yn haws ac yn symlach heb yr angen am lein ffôn neu ganolfan fonitro.

Mae'r Notifier efo nifer o nodweddion, gan gynnwys gwefru diwifr, clonio, botwm SOS ag opsiwn dargyfeirio sydd yn galluogi gofalywr i gynnig gofal effeithiol, o safon uchel.

Cynnwys

Rhagymadrodd.....	Tudalen 2
Beth sydd yn y bocs?.....	Tudalen 2
Gwybodaeth Gyffredinol.....	Tudalen 3
Ddewislen Gosodiadau.....	Tudalen 4
Ddewislen Weinyddol.....	Tudalen 5
Ddewislen Opsiynau.....	Tudalen 6
Ddewislen Radio.....	Tudalen 7
Cynnal a Chadw.....	Tudalen 8
Datrys Problemau a Chwestiynau Cyffredin.....	Tudalen 8
Manylebau.....	Tudalen 9

Rhagymadrodd

Mae'r Notifier yn dderbynnnydd larwm cludadwy arloesol, wedi'i gynllunio i wneud gofal yn haws ac yn symlach heb yr angen am lein ffôn neu ganolfan fonitro. Mae'r Notifier efo nifer o nodweddion, gan gynnwys gwefru diwifr, clonio, botwm SOS ag opsiwn dargyfeirio sydd yn galluogi gofalwyr i gynnig gofal effeithiol, o safon uchel.

Nodweddion

- Gwefru diwifr
- Rhyngwyneb defnyddiwr modern, chwaethus
- Sgrin gyffwrdd lliw
- Gallu clonio dyfeisiau a gosodiadau yn ddiwifr i Notifier arall
- Opsiwn i ddargyfeirio i uned (neu Notifier arall)
- Nodwedd SOS i rybuddio Notifier neu uned arall
- Clirio galwad i Notifier arall
- Cefnogi hyd at 150 o ddyfeisiau
- Amddiffyniad rhif pin
- Opsiynau rhybuddio sain, dirgrynol a strôb
- Ddyfais hawdd ei glanhau, gwrth-ficrobaidd sydd yn gwrthsefyll dŵr
- Dangosydd statws gwefru a batri
- Nodwedd i wirio pellter gweithio dyfais
- Gweld a llwytho i fyny hanes rhybuddion
- Modd Safonol i ddefnydd 1:1 a Modd Uwch ar gyfer gosodiadau cymhleth

Beth sydd yn y bocs?



Cyflenwad
Pŵer USB




Notifier



Gorsaf
Gwefru



Stylus



Cortyn Gwddf



Clip
Gwregys

Gwybodaeth Gyffredinol

Sefydlu a Gwefru

1. Mewnosod y USB mini i gefn yr orsaf gwefru a'r plwg USB i'r cyflenwad pŵer. Mewnosod y cyflenwad pŵer USB i'r soced trydanol. Mi fydd y LED ambr ar yr orsaf gwefru yn goleuo, fflachio tair gwaith ag yn fuan wedyn, diffodd.
2. Rhowch y Notifier yn yr orsaf gwefru. O fewn eiliadau, mi fydd yna bîp ac mi fydd y statws gwefru yn newid o 'Ready' i 'Charging', wedyn mi fydd i fodd gorffwys, os mae'r Notifier ymlaen.
3. Pan mae'r batri yn isel, mi fydd yr Notifier angen 2.5 awr i wefru'n llawn. Os mae'r Notifier i ffwrdd, ni fydd yna hysbyswedd, ond mi fydd yn gwefru. Mae yna fwy o wybodaeth ar weithdrefn gwefru'r batri ar dudalen 8.
4. Dilynwch y canllaw yma am fwy o wybodaeth am sut i baru dyfeisiau i'r Notifier ag addasu'r gosodiadau i'ch dewis gofynnol.

Pwysig: Dylech osgoi caniatáu i'r Notifier ryddhau'r batri yn llawn gan y gallai hyn effeithio ar ei allu i ailwefru.

Nodyn: Mae'n bosibl gwefru'r Notifier drwy ddefnyddio gorsaf gwefru'r Buzzz (gan fydd y pinnau mhetal ar orsaf y Buzzz yn gwefru'r Notifier). Byddwch yn ymwybodol nad fydd hyn yn gweithio'r ffordd arall - nid oes yna binnau mhetal ar orsaf gwefru'r Notifier, felly nid yw'n bosib iddo wefru'r Buzzz.

Nodyn: Mi fydd rhybuddion sydd yn cael eu gadael heb ymateb am amser, a nifer o rybuddion uchel yn amharu ar fywyd batri

Ymlaen/I Ffwrdd & Modd Gorffwys

I droi'r Notifier ymlaen, pwyswch a dal lawr y botwm i ffwrdd/ymlaen am 6 eiliad. I droi'r Notifier i ffwrdd, pwyswch a dal lawr y botwm ymlaen/i ffwrdd am 6 eiliad yna dewiswch 'Yes' i gadarnhau diffodd y ddyfais. Pwyswch y botwm ymlaen/i ffwrdd i roi'r sgrin i mewn i fodd gorffwys, ag eto i'w ddeffro. Mi fydd yn Notifier yn mynd i fodd gorffwys yn awtomatig os na fydd y ddyfais wedi cal eu defnyddio o fewn yr amser oedi sgrin

Sgrin Gartref (heb rhybudd)

Mae'r sgrin gartref yn cynnwys, o'r top i'r gwaelod:

- Logo CAIR. Tapiwch hwn i droi'r sgrin wyneb i waered. Mae hyn yn ddefnyddiol pan fydd yn cael eu gwisgo efo'r clip gwregys
- Statws gwefru. Mi fydd 'Ready' yn ymddangos os nad yw'n gwefru. 'Mi fydd 'Low Battery' yn ymddangos os mae'r batri yn isel. Mi fydd 'Charging' yn ymddangos pan mae'r ddyfais yn gwefru
- Cryfder Batri
- 'Day Mode' (os mae 'Day Mode' wedi ei droi ymlaen ac mae'r amser o fewn yr amser sydd wedi cael eu rhaglennu. Gwelwch Ddewislen Opsiynau ar dudalen 6)
- Dyddiad heddiw (mi ellir newid hyn y Ddewislen Gosodiadau. Gwelwch dudalen 4)
- Amser (mi ellir newid hyn y Ddewislen Gosodiadau. Gwelwch dudalen 4)
- Cloc Larwm (mi fydd yn ymddangos os mae o wedi ei droi ymlaen yn y Ddewislen Gosodiadau. Gwelwch dudalen 4)
- Botwm troi 'Mute' ymlaen/i ffwrdd (Os mae 'Mute' wedi ei droi ymlaen, mi fydd yr Notifier yn anwybyddu pob rhybudd. Mi fydd y botwm yma dim ond yn ymddangos os mae o wedi eu galluogi yn y Ddewislen Weinyddol. Gwelwch dudalen 5)
- Neges 'Away Mode On' (os fydd wedi eu galluogi ag ymlaen. Gwelwch dudalen 7)
- Botwm SOS (mi fydd dim ond yn ymddangos os mae o wedi eu troi ymlaen yn y Ddewislen Radio. Gwelwch dudalen 7)
- 'Alerts' (fydd dim ond yn ymddangos os mae'r rhybuddion wedi eu hoedi tra defnyddio Modd Uwch. Gwelwch dudalen 6)
- Botwm 'Settings' (mae hwn yn mynd a chi i'r Ddewislen Gosodiadau. Gwelwch dudalen 4)

Sgrin Gartref (hefo rhybudd)

Pan fydd ddyfais sydd wedi eu paru yn actifadu, mae'r sgrin gartref yn cynnwys, o'r top i'r gwaelod:

- Cryfder signal y ddyfais
- ID y ddyfais sydd wedi eu hactifadu
- Cryfder batri'r ddyfais
- Enw a lleoliad y ddyfais
- Math o ddyfais
- Botwm 'OK'. Os mae Modd Uwch ymlaen, mi fydd nifer o fotymau yn ymddangos. Mae'r rhain wedi eu hesbonio isod ar dudalen 6

Cydnabod rhybudd yn Fodd Safonol

Mae Modd Safonol yn ddelfrydol pan fydd dim ond un Notifier yn cael eu defnyddio. Mae fwy o wybodaeth ar gael ar dudalen 6.

Pwyswch y botwm 'OK' i gydnabod y rhybudd. **Nodyn:** Os mae 'Auto Clear' yn cael eu defnyddio (tudalen 7), mi fydd pwysio 'OK' hefyd yn cydnabod y rhybudd ar unrhyw Notifier arall.

Cydnabod rhybudd yn Fodd Uwch

Mae Modd Uwch yn fwy addas pan fydd mwy na dau Notifier yn cael eu defnyddio. Mae yna fwy o wybodaeth ar dudalen 6.

- Pwyswch y botwm 'OK' i gydnabod y rhybudd yn syth.
- Pwyswch y botwm 'Delay' i ohirio'r rhybudd. Mi fydd y rhybudd mewn ciw ag ail-actifadu ar ôl yr Amser Oedi (Tudalen 6).
- Os mae'r botwm 'Clear' wedi eu galluogi, pwyswch i glirio rhybudd ni ellir rhoi sylw iddo.

Nodyn: Os mae 'Auto Clear' (tudalen 7) yn cael eu defnyddio, mi fydd pwysio 'OK' yn cydnabod y rhybudd ar unrhyw Notifier arall, tra bod

Ddewislen Gosodiadau

Yn y Ddewislen Gosodiadau, mi ellir addasu'r Notifier i'ch dewis personol drwy ddefnyddio'r eiconau ar y sgrin. Mae pob opsiwn wedi eu hegluro isod.

'Screen'

Mi ellir newid disgleirdeb y sgrin ac mae yna opsiwn i'r sgrin fflachio pan mae'n derbyn rhybudd o fewn yr osodiad hwn.

Mae'r opsiwn **'Brightness'** efo 5 osodiad o 1 i 5. Nodwch na'r fwyaf disglair mae'r sgrin, y mwyaf fydd hyn yn cael effaith ar y bywyd batri.

Os mae'r opsiwn **'Strobe'** ymlaen, mi fydd y sgrin yn fflachio pan fydd y Notifier yn rhybuddio. Mi ellir troi'r strôb ymlaen/i ffwrdd drwy bwysu'r botwm (botwm gwyn = strôb i ffwrdd, botwm oren = strôb ymlaen).

Nodyn: Os mae'r opsiwn strôb ymlaen, mi fydd tŵn y rhybudd yn newid.

'Away'

Nodyn: Mi fydd yr opsiwn yma yn ymddangos os mae 'Away' wedi troi ymlaen pan mae modd 'Divert' wedi eu galluogi yn y Ddewislen Radio, gwelwch dudalen 7.

Mae'r opsiwn 'Away' wedi eu dylunio ar gyfer gofalywyr pan maent yn defnyddio 'Divert' os fydd i ffwrdd o'r Notifier am gyfnod o amser. Os mae 'Away' ymlaen ac mae synhwyrdd yn rhybuddio, mi fydd y 'Divert Delay' yn cael eu hanwybyddu ac mi fydd y rhybudd yn cael ei ddargyfeirio o fewn eiliadau. Mi ellir y gofalywyr troi'r opsiwn 'Away' ymlaen yn hawdd pan maent yn gadael, a throi i ffwrdd pan fyddant yn dychwelyd.

Mi ellir troi'r opsiwn 'Away' ymlaen/i ffwrdd drwy bwysu'r botwm (botwm gwyn = i ffwrdd, botwm oren = ymlaen).

'Sound'

Mae'r **'Volume'** yn mynd o 0 (distaw) i 3 (uchel). Nodyn: Ni ellir distawi synwryddion sydd wedi eu gosod i donau 5 a 6.

Mi ellir troi'r opsiwn **'Ascend'** ymlaen/i ffwrdd drwy bwysu'r botwm (botwm gwyn = i ffwrdd, botwm oren = ymlaen).

Nodyn: Mi fydd rhybudd yn cychwyn ar lefel 1 os mae 'Ascend' wedi troi ymlaen.

Mi ellir troi'r opsiwn **'Vibrate'** ymlaen/i ffwrdd drwy bwysu'r botwm (botwm gwyn = i ffwrdd, botwm oren = ymlaen). Ni fydd y dirgrynu yn gweithio tra mae'r Notifier yn eu gorsaf wefru.

'Time'

Mae'r amser wedi eu harddangos ar y sgrin gartref. Mae o'n bwysig i osod yr amser ar gyfer adrodd digwyddiadau ag wrth ddefnyddio'r Notifier yn 'Day Mode'. Tapiwch yr eiconau a defnyddiwch y botyma i fynnu/i lawr i setio'r oriau a munudau.

'Date'

Mae'r dyddiad wedi eu harddangos ar y sgrin gartref. Mae o'n bwysig i osod yr amser ar gyfer adrodd digwyddiadau. Tapiwch yr eiconau a defnyddiwch y botyma i fynnu/i lawr i setio'r dydd, mis a blwyddyn.

'Alarm Clock'

Mi ellir defnyddio'r Notifier fel cloc larwm. Tapiwch y botwm 'On/Off' i droi ymlaen/i ffwrdd (botwm gwyn = i ffwrdd, botwm oren = ymlaen), a defnyddiwch y botymau i fynnu/i lawr i osod yr oriau a munudau. Pan mae'r cloc larwm wedi eu galluogi, mi fydd y manylion ar y sgrin gartref.

'Admin'

Mae'r botwm yma yn agor i fynnu bysellfwrdd (gwelwch isod). Gallwch gael mynediad i'r Ddewislen Weinyddol (gwelwch dudalen 5) os rhoddoch chi'r PIN cywir.

Bysellfwrdd

Un o nodwyddau unigryw'r Notifier yw'r angen i roi PIN, i sicrhau na fod defnyddwyr heb y PIN yn gallu cael at osodiadau pwysig. I fynd i'r Ddewislen Weinyddol, rowch y PIN i mewn wedi 'Ent'. Mi ddylai defnyddio'r stylus i sicrhau mewnbwn cywir.

Y PIN rhagosodedig yw 1234, mi ellir newid hyn o fewn y Ddewislen Weinyddol. Gwelwch isod am be mae pob talfyriadau yn i feddwl:

- ESC - 'Escape'
- Ent - 'Enter'
- Sp - 'Space'
- Bs - 'Backspace'

Dewislen Weinyddol

Defnyddiwch y Ddewislen Weinyddol ar gyfer gosodiadau, rheoli dyfeisiau ac opsiynau uwch. Mae pob eicon yn cael eu hesbonio isod.

'New Device'

Mi ellir y Notifier storio hyd at 150 dyfais, gyda phob un wedi eu neilltuo i enw a lleoliad unigol. Mae'r proses pario yn arwain y defnyddwyr drwy bob cam. Cyn cychwyn, sicrhewch fod y ddyfais yr ydych eisiau pario yn barod i drawsyrro gan mae angen actifadu o fewn 30 eiliad yn gam 2 isod:

1. 'Pair a Device'. Pwyswch 'OK' i symud ymlaen, neu 'Exit' i adael.
2. 'Activate Device' (actifadu'r ddyfais o fewn 30 eiliad).
3. Os mae'r ID yn gywir, pwyswch 'Yes'. Os ddim, pwyswch 'No' a chychwyn eto.
4. 'Copy Existing Name?'. Os mae enwau wedi eu storio yn barod, mi ellir eu dewis eto. Os ddim, defnyddiwch y bysellfwrdd.
5. 'Location'. Mi ellir defnyddio'r lleoliad sydd wedi eu storio i'r enw uchod. Os ddim, defnyddiwch y bysellfwrdd.
6. 'Day Mode On/Off'. Dewiswch i alluogi neu analluogi 'Day Mode' am y ddyfais (gwelwch dudalen 6)
7. 'Tone Type'. Dewiswch un o 6 tonau. Ni ellir distawi donau 5 a 6 ac nid yw'n bosib gosod i 'Day Mode'. Mae hyn wedi'i fwriadu ar gyfer rheolwr sydd eisiau sicrhau na ellir staff distawi neu anwybyddu rhybuddion.
8. 'Customise Device?'. Os yr ydych yn dewis 'No', mi fydd math y ddyfais yr un peth a'r ddyfais gafodd eu hactifadu yn gam 2 uchod. Os yr ydych yn dewis 'Yes' mi ellir newid math y ddyfais. Mae hyn yn ddefnyddiol os yr ydych eisiau newid (er enghraifft) 'Door Contact' i 'Window Contact'.
9. 'Device Info'. Mae hyn yn grynodedb o'r gosodiadau a ddewisir, tapiwch 'OK' i gwblhau'r proses pario.
10. 'Using Divert?' 'Pair to Device?'. Os mae'r opsiwn 'Divert' (gwelwch dudalen 7) yn cael eu defnyddio, tapiwch 'Yes', a pharwch efo'r ddyfais derbyn. Os na fod angen 'Divert' dewiswch 'No'.

Pwysig: Os mae'r nodwedd 'divert' wedi eu galluogi, mi fydd hyn yn achosi pob dyfais gyda rhybudd gweithredol i ddargyfeirio ar ôl i'r cyfnod oediad dargyfeirio dod i ben. Pan fydddech yn rhaglennu dyfais newydd, os na fydd y synhwyrdd wedi eu rhaglennu i ddargyfeirio, ni fydd yn dargyfeirio i uned arall, fodd bynnag mi fydd y rhybudd yn dod i ben ar ddiwedd y cyfnod dargyfeirio. Felly, os fydd angen y nodwedd dargyfeirio, mae rhaid hyn cael eu gwneud i bob synhwyrdd unigol pan fydd yn cofrestru, yn ogystal â galluogi'r nodwedd 'Divert' yn y ddewislen radio. Os na fydd 'divert' eu hangen, sicrhewch fod o wedi cael eu hanablu.

'Walk Test'

Pan mae'r Notifier yn cael eu defnyddio mewn eiddo mawr, mae'n bwysig i gwblhau prawf pellter gweithio, i sicrhau fod yn gweithio ar draws yr eiddo. Mi fydd 'Walk Test' yn gweithio efo unrhyw ddyfais gydnaws. Pan mae dyfais yn cael eu hactifadu yn 'Walk Test', mi fydd y Notifier yn swnio ac mi fydd y sgrin yn rhestru'r wybodaeth ganlynol am y ddyfais:

- 'Signal level' (001 - 255)
- 'Unique decimal identity' (Yr ID sbardun radio)
- 'Unique hexadecimal identity'
- 'Device Type' **Nodyn:** Mi fydd y ddyfais wir yn ymddangos
- 'Battery status'
- 'Repeater number' (mae hyn yn ddefnyddiol pan mae'r Orion yn cael eu defnyddio)

Mi fydd y botwm '**Reset**' yn clirio'r profion blaenorol o'r sgrin. I adael 'Walk Test' pwyswch yr eicon 'exit'. Mae offer Cair i gyd efo pellter gweithio estynedig, ond os mae prawf pellter gweithio yn dangos fod eiddo yn rhy fawr am Notifier, rydym yn awgrymu defnyddio ein **Orion** sydd yn estynnu pellter gweithio hyd at 1 cilomedr. **Pwyll:** Ni fydd rhybudd gwir yn cael eu derbyn pan fydd y Notifier yn 'Walk Test'. Nid fydd profion yn 'walk test' yn cael eu dangos yn yr 'event log' chwaith.

'New PIN'

Mi ellir newid y PIN yma. Rowch y PIN presennol i mewn cyntaf, ac wedyn y PIN newydd.

'Mute Enable/Disable'

Os mae'r opsiwn yma wedi eu galluogi (botwm oren = ymlaen), mi fydd botwm 'Mute' yn ymddangos ar y sgrin gartref. Os mae o wedi analluogi (botwm gwyn = i ffwrdd), ni fydd y botwm 'Mute' yn ymddangos ar y sgrin gartref. Mae'r opsiwn yma wedi eu dylunio pan fydd mwy na un Notifier yn cael eu defnyddio ag yn galluogi gofalwyr i droi rhybuddion i ffwrdd ar eu Notifier.

Nodyn: Os dim ond un Notifier sydd yn cael eu defnyddio ac mae 'Mute' ymlaen, mi fydd y Notifier yn anwybyddu pob rhybudd.

'History'

- 'View Devices'. Mae'r opsiwn yma wedi eu lleoli yn adran 'History' i sicrhau fod yn anodd golygu neu ddileu dyfais ar ddamwain. Pan mae'r eicon yma yn cael eu tapio, mi fydd y tri synhwyrdd gyntaf sydd wedi eu pario yn cael eu rhestru, defnyddiwch y botwm i lawr i weld y tri nesaf, ac yn y blaen. Tapiwch y synhwyrdd gofynnol i weld y manylion a dewiswch 'Edit' neu 'Delete'.
- 'Event Log'. Mae hanes rhybuddion ar gael ar y sgrin hon. Mi fydd y 964 digwyddiad diwethaf yn cael eu safio ar y Notifier.

'Options'

Mae'r botwm yma yn mynd a chi i'r Ddewislen Opsiynau.

Dewislen Opsiynau

Mae'r Ddewislen Opsiynau yn galluogi newidiadau i'r opsiynau uwch o fewn y Notifier. Mae pob eicon wedi eu hesbonio isod.

'Day Mode Settings'

Mae'r 'Day Mode' yn galluogi'r Notifier i anwybyddu rhybuddion o fewn ffenestr amser sydd wedi eu rhaglenni. Mae'r 'Day Mode' y cyfnod o amser **na fydd** y dyfeisiau yn actifadu. Mi ellir nifer o ddyfeisiau defnyddio 'Day Mode' ond dim ond un cofnod amser sydd yn bosib.

- **'Day Start'**. Gosodwch yr oriau a munudau o fewn yr opsiwn yma (mi fydd y ddyfais yn **stopio** rhybuddio yn ystod yr amser yma).
- **'Day On/Off'**. Mae rhaid yr opsiwn yma fod **ymlaen** os yr ydych yn defnyddio 'Day Mode' (botwm gwyn = i ffwrdd, botwm oren = ymlaen).
- **'Day End'**. Gosodwch yr oriau a munudau o fewn yr opsiwn yma (mi fydd y ddyfais yn **cychwyn** rhybuddio yn ystod yr amser yma).

Nodyn: Mae angen sicrhau fod y gosodiadau uchod ag opsiwn 'New Device'-'Day Mode' (gwelwch dudalen 5) wedi eu galluogi i synhwyrdd yn gweithio yn 'day mode'. Sicrhewch fod yr amser (gwelwch dudalen 4) hefyd wedi eu gosod.

Nodyn 2: Nid yw'n bosib defnyddio 'Day Mode' i ddyfeisiau wedi eu gosod i donau 5 a 6

'Screen Delay'

Hyn yw'r cyfnod amser cyn i'r sgrin fynd i fodd gorffwys os heb gael eu defnyddio. Mae yna 5 opsiwn o 30 eiliad hyd at 150 eiliad.

Nodyn: Y hirach yw'r amser 'Screen Delay' y mwyaf fydd y bywyd batri yn cael eu heffeithio.

'Mode'

Mae'r Notifier efo dau opsiwn modd. Mae modd **'Standard'** yn ddelfrydol i sefyllfa le dim ond un Notifier sydd yn cael eu defnyddio, tra mha fodd **'Advanced'** yn addas pan fydd mwy na un Notifier yn cael eu defnyddio. Pwyswch **'Set Mode'** i ddewis yr opsiwn dymunol.

Yn fodd **'Standard'**, mae rhybudd yn cael eu cydnabod wrth bwysu'r botwm **'OK'**.

Yn fodd **'Advanced'**, mi ellir cydnabod rhybudd wrth bwysu'r botwm **'OK'**, neu medrith y rhybudd cael eu hoedi, neu glirio (os mae'r botwm 'Clear' wedi eu galluogi).

Os mae'r botwm **'OK'** yn cael eu pwysu, mi fydd y rhybudd yn cael eu cydnabod a chlirio.

Os mae'r botwm **'Delay'** yn cael eu pwysu, mi fydd y rhybudd(ion) yn mynd i mewn i giw a ellir ei weld tu fewn i'r eicon 'Alerts' ar y sgrin gartref (mi fydd yr eicon yma ddim ond yn ymddangos os mae yna rybuddion sydd wedi eu hoedi). Mi fydd rhybudd sydd wedi eu hoedi yn ail-rhybuddio yn awtomatig ar ôl cyfnod o amser (gwelwch 'Alert Delay' isod). Mi ellir oedi hyd at 30 rhybudd ar yr un amser os bydd angen.

Mae'r botwm **'Clear'** wedi eu dylunio ar gyfer gofalmwr sydd ddim yn gallu ymateb i'r rhybudd, a gadael i rywun arall eu cydnabod.

Paen mae modd 'Advanced' ymlaen, mi fydd y dewis i arddangos y botwm 'Clear' yn cael eu cynnig (botwm gwyn = i ffwrdd, botwm oren = ymlaen).

'Alert Delay'

Os defnyddio modd 'Advanced' (gwelwch 'Mode' uchod), mae'r 'Alert Delay' y cyfnod o amser cyn mae'r rhybudd yn ail-actifadu. Mae yna 8 opsiwn o 30 eiliad hyd at 240 eiliad.

'Radio'

Mae'r botwm yma yn dilyn i'r Ddewislen Radio (gwelwch dudalen 7).

Dewislen Radio

Mae'r Ddewislen Radio yn galluogi i chi newid y nodweddion newydd yn y Notifier. Mae pob eicon wedi eu hesbonio isod.

'Divert'

Mae'r nodwedd hon yn gallu cael eu defnyddio fel opsiwn wrth gefn os nad yw'r gofalwyr yn gallu cydnabod rhybudd pob amser. Mi fydd y nodwedd 'Divert' yn galluogi rhybuddion sydd ddim yn cael eu cydnabod dargyfeirio i system gydnaws arall (e.e. uned Telofal) os nad yw'r rhybudd yn cael eu hymateb o fewn yr amser 'Divert Delay' (gwelwch 'Divert Delay' isod).

Mi ellir troi'r opsiwn '**Divert**' ymlaen/i ffwrdd drwy bwysu'r botwm (botwm gwyn = i ffwrdd, botwm oren = ymlaen). Os yr ydych yn galluogi'r opsiwn 'Divert', mi fydd cwestiwn yn ymddangos yn ofyn 'Do you want to use away mode?'. Os pwywch 'Yes', mi fydd y botwm '**Away**' yn ymddangos yn y Ddewislen Gosodiadau (gwelwch dudalen 4).

Pwysig: Os mae'r nodwedd 'divert' wedi eu galluogi, mi fydd hyn yn achosi pob dyfais gyda rhybudd gweithredol i ddargyfeirio ar ôl i'r cyfnod oediad dargyfeirio dod i ben. Pan fydech yn rhaglennu dyfais newydd, os na fydd y synhwyrdd wedi eu rhaglennu i ddargyfeirio, ni fydd yn dargyfeirio i uned arall, fodd bynnag mi fydd y rhybudd yn dod i ben ar ddiwedd y cyfnod dargyfeirio. Felly, os fydd angen y nodwedd dargyfeirio, mae rhaid hyn cael eu gwneud i bob synhwyrdd unigol pan fydd yn cofrestru, yn ogystal â galluogi'r nodwedd 'Divert' yn y ddewislen radio. Os na fydd 'divert' eu hangen, sicrhewch fod o wedi cael eu hanablu.

Nodyn 1: Pan mae dyfais yn dargyfeirio, mi fydd ID y ddyfais sydd wedi eu hactifadu yn cael eu newid i osgoi gwrthdaro. Mi fydd yn codi o 100 rhif (e.e. mi fydd dyfais efo ID 123456 yn cael eu dargyfeirio efo ID 123556).

Nodyn 2: Mi fydd y nodwedd hon dim ond yn gweithio pan fydd yr Notifier ymlaen. Sicrhewch fod y Notifier yn cael eu cadw ymlaen a bod y batri wedi eu gwefru.

Nodyn 3: Mi ddylai rhoi ystyried pellach os eich bod yn defnyddio fodd 'Divert' efo Orion (mewn 'incremental mode' wedi eu gosod).

'Divert Delay'

Os mae 'Divert' (gwelwch uchod) ymlaen, mi fydd rhybudd yn cael eu dargyfeirio ar ôl yr amser 'Divert Delay'. Mae yna 8 opsiwn ar gael o 30 eiliad hyd at 240 eiliad.

'Auto Clear'

Mi ellir defnyddio'r opsiwn yma pan fydd yna dwy neu fwy Notifier yn cael eu defnyddio a'i gilydd. Mae'n bosibl troi'r opsiwn '**Auto Clear**' ymlaen/i ffwrdd drwy bwysu'r botwm (botwm gwyn = i ffwrdd, botwm oren = ymlaen). Os mae 'Auto Clear' ymlaen ar bob Notifier, pan mae un Notifier yn cydnabod rhybudd, mi fydd yn gyrru signal i bob Notifier arall i glirio i lawr. Mi fydd unrhyw Notifier arall yn dangos rhif o'r Notifier sydd wedi derbyn y rhybudd (gwelwch 'Notifier Identity' isod).

Nodyn 1: I 'Auto Clear' weithio, mae rhaid bod bob synhwyrdd wedi eu paru gyda phob Notifier yn y grŵp.

Nodyn 2: Os yr ydych yn defnyddio'r nodwedd 'Auto Clear' gyda Orion, byddwch yn ymwybodol na ddylai defnyddio 'incremental mode' ar yr Orion.

'Clone'

Mae hyn yn nodwedd sydd yn safio amser sydd yn galluogi dyblygiad diwifr o bob dyfais a gosodiad o un Notifier i un arall, neu mwy os bydd angen. I ddefnyddio'r nodwedd yma, ewch trwy'r bwydlenni o fewn y Notifier, gan gofio bod gallu'r oedi sgrin dod i ben os na fod yr Notifier wedi eu cael eu defnyddio am amser penodol.

Pan fydd '**Devices**' neu '**Options**' yn cael eu dewis, dewiswch naill ai '**Transmit**' neu '**Receive**'. Mi ddylai 'Transmit' cael eu dewis ar yr Notifier sydd yn dal y data a 'Receive' ar yr uned(au) mae'r data yn cael eu trosglwyddo i. Sicrhewch fod 'Receive' yn cael eu dewis cyn trawsyrru'r data. Pan yr ydych yn defnyddio'r opsiwn 'Devices', mi fydd y Notifier sydd yn trawsyrru yn arddangos y nifer o ddyfeisiau, ac mi fydd yr uned(au) derbyn yn dangos y nifer o ddyfeisiau sydd wedi eu derbyn a safio. Mi fydd ddyfeisiau yn cael eu safio ar y Notifier sydd yn derbyn os nad ydynt wedi paru yn barod. Os maen nhw ar y Notifier sydd yn derbyn yn barod, ni fydd yn cael eu safio eto. **Nodyn:** Gan na fod dyfeisiau sydd wedi eu paru yn barod safio eto, byddwch yn ymwybodol ellir bod efo gosodiadau gwahanol (e.e. enw/lleoliad/math y ddyfais a.y.b.).

'SOS'

Mae'r opsiwn SOS yn galluogi'r gofalwyr i alw am gymorth gan Notifier neu system arall. Pan mae o wedi eu galluogi, mi fydd y botwm SOS yn ymddangos ar y sgrin gartref sydd yn eu galluogi i gael eu paru efo ddyfeisiau arall. Botwm gwyn = i ffwrdd. Botwm oren = ymlaen. **Nodyn:** Gellir paru'r botwm SOS efo Notifier arall drwy ddefnyddio'r fwydlen 'New Device' (tudalen 5).

'Notifier Identity'

Pan mae 'Auto Clear' neu 'SOS' wedi eu galluogi (gwelwch uchod), mi ddylai pob Notifier mewn system cael eu rhifo yn wahanol. Mae'r ID o'r Notifier sydd yn cydnabod rhybudd yn cael eu trawsyrru i bob Notifier arall o fewn y system. Mae'r opsiwn '**Notifier ID**' yn rhoi dewis o 15 'Notifier Identity' wahanol. **Nodyn:** Gellir hefyd defnyddio '**Notifier ID**' efo'r '**Group ID**' i greu 'Radio Trigger ID' penodol i'r botwm SOS. Mae'r 'Radio Trigger ID' yn cael eu cyfrifo drwy luosi'r 'Group ID' gan 100 a'r 'Notifier ID' gan 5, felly fydd 'Group ID' o 3 a 'Notifier ID' o 8 yn arwain ar 'Radio Trigger ID' o 340 ($3 \times 100 + 8 \times 5 = 340$).

Cynnal a Chadw

Gwefru Batri

Mae sgrin gartref y Notifier yn rhoi gwybodaeth ar statws y batri. Yn ganol y top o'r sgrin, mae'r bar llwyd yn dangos statws y batri, ac mae'r symbol ar dde'r top o'r sgrin yn dangos cryfder y batri.

Pan mae'r Notifier yn cael eu gosod yn eu gorsaf gwefru, mi ddylai fod yna bîp ar ôl ychydig o eiliadau i gadarnhau fod cysylltiad wedi ei wneud ac mi fydd y statws yn newid o 'Ready' i 'Charging' os mae'r Notifier ymlaen. Ar ôl ychydig o eiliadau, mi fydd yn sgrin yn mynd i fodd gorffwys. Os nad yw hyn yn digwydd, tynnwch y Notifier allan a rhoi i mewn eto i'r orsaf gwefru. Mi ddylai'r batri gwefru yn llawn ar ôl 2.5 awr, pan mae'r symbol batri yn llawn. Mi fydd y Notifier hefyd yn gwefru pan mae'r ddyfais i ffwrdd, ond ni fydd yna arwydd ar y sgrin. Os mae'r bar statws yn goch ag yn arddangos 'Low Battery', rhowch y Notifier yn yr orsaf gwefru cyn gynted ac sydd yn bosib.

Nodyn 1: I gadw bywyd batri eich Notifier, osgoi gwefru yn rhannol os yn bosib. Sicrhewch fod y Notifier wedi gwefru yn llawn ac wedi ei ailwefru pan mae'r batri yn isel, yn debyg i sut ddylai ffon symudol cal eu trin.

Nodyn 2: Dylech osgoi caniatáu i'r Notifier ryddhau'r batri yn llawn gan y gallai hyn effeithio ar ei allu i ailwefru.

Nodyn 3: Mae'n bosibl gwefru'r Notifier drwy ddefnyddio gorsaf gwefru'r Buzzz

Datrys Problemau a Chwestiynau Cyffredin

C1: Pan fod y Notifier yn ymddangos fel na yw'n gwefru?

Sicrhewch fod y cyflawnder pŵer a'r USB wedi ei chysylltu ag ymlaen. Sicrhewch fod y Notifier ymlaen. Os oedd y batri yn fflat cyn i wefru, mi ellir cymryd dipyn o amser cyn bod o'n bosib troi'r Notifier ymlaen i'r sgrin gweithredu a rhoi gwybodaeth gwefru. Os fydden yn parhau i gael problemau efo ail-wefru, cysylltwch â Cair am gymorth bellach. **Nodyn:** Mae'r cyflawnder pŵer wedi eu dylunio yn benodol i weithio efo cylchedau gwefru'n sydyn yn y Notifier. Sicrhewch na fod unrhyw gyflawnder pŵer arall yn cael eu defnyddio gan ellir hyn achosi problemau.

C2: Mi ddylai'r Notifier wedi eu gwefru yn llawn ond mae'r sgrin yn ddweud 'Not Charging'?

Os mae'r symbol batri yn llawn ag yn arddangos 'Not Charging' mi ddylai tybio fod y Notifier wedi eu gwefru yn llawn.

C3: Pam tydi'r Notifier ddim yn rhybuddio pan mha ddyfais sydd wedi eu pario yn actifadu?

Ydi'r Notifier ymlaen? Ydi 'Mute' ymlaen? Ydi 'Day Mode' ymlaen? Defnyddiwch nodwedd 'Walk Test' i sicrhau fod y Notifier yn gallu derbyn signal gan y dyfeisiau. Sicrhewch fod y ddyfais sydd wedi eu paru yn gweithio hefyd, actifadu dyfais arall os ar gael.

C4: Pam mae'r sgrin wyneb i waered?

Mae hyn yn nodwedd bwrpasol sydd yn ddefnyddiol pan gwisgo'r Notifier o gwmpas y wasg. Tapiwch yr eicon CAIR ar y sgrin gartref i droi'r sgrin wyneb i waered, ag eto i droi yn ôl.

C5: Pan mae yna bîp a 'Pressure On Screen' yn arddangos?

Mae hyn yn nodwedd bwrpasol i rybuddio fod yna pwysau ar y sgrin.

C6: Pam tydi'r Notifier yn wneud sŵn pan mha rybudd yn cael eu derbyn?

Sicrhewch fod y 'Sound Volume' wedi eu gosod i fwy na 0.

C7: Pam mae'r Notifier yn wneud sŵn pan mae'r gosodiad sŵn i ffwrdd?

Gwiriwch y dôn sydd wedi eu dewis i bob dyfais. Os mae tŵn 5 neu 6 wedi eu dewis, ni ellir eu tawelu. Mae hyn yn nodwedd bwrpasol.

C8: Tydi 'Day Mode' ddim yn ymddangos i weithio?

Mae'r amser cychwyn ar 'Day Mode' yr amser mae'r synhwyrdd yn stopio rhybuddio. Mae amser darfod 'Day Mode' yr amser fydd yn synhwyrdd yn cychwyn rhybuddio. Mae rhaid troi 'Day Mode' ymlaen yn y Ddewislen Opsiynau ag pan fydd yn paru'r ddyfais hefyd. Gwelwch dudalen 6 am fwy o wybodaeth.

C9: Nid yw'n siŵr os fydd y Notifier yn gweithio ar draws yr eiddo cyfan.

Ar gyfer rhan fwyaf o osodiadau, mi ddylai defnyddio 'Walk Test' (gwelwch dudalen 6) i sicrhau fod yr ardal lawn yn cael eu gorchuddio. Tra yn wneud y prawf, mi ddylai actifadu'r synhwyrdd yn yr ardal fydd yn cael eu gosod, e.e. os mae o'n synhwyrdd gwely, actifadu'r synhwyrdd o ardal y gwely.

Os mae'r prawf yn dynodi fod yr eiddo rhy fawr am Notifier, rydym yn argymhell defnyddio ein Orion sydd yn estynnu pellter gweithio ein dyfeisiau.

Q9: Sut ydw i'n ailosod y Notifier?

Cysylltwch â Cair am fwy o wybodaeth ar sut i ailosod y Notifier.

Manylebau

Cydnawsedd	Tunstall
Amledd Gweithredu	869 MHz
Maint	H117 x L156 x D14 mm
Gwefru	2.5 awr / yn para hyd at 2 diwrnod yn dibynnu ar ddefnydd
Pellter Gweithio Ddiwifr	Pellter hyd at 600m efo rhai synwryddion Cair. Dros 1 cilomedr efo'r Orion
Pwysau	85g
Ymdreiddiad Dŵr	Yn gwrthsefyll dŵr
Cydymffurfio	UKCA / CE / RoHS 2 / RED
Gwarant	24 mis

Pacio ar gyfer cludo

Rhaid i'r offer sy'n cynnwys celloedd neu fatris gael eu pacio mewn pecynnau anhyblyg cryf a rhaid eu sicrhau rhag symud o fewn y deunydd pacio allanol i atal actifadu damweiniol. Rhaid i enw a chyfeiriad yr anfonwr fod yn weladwy yn glir ar y pecyn allanol.

Diogelwch

Peidiwch â datgymalu na newid yr uned. Peidiwch ag agor y casin. Mae'r Notifier yn gwrddsefyll dŵr felly gellir eu defnyddio yn rhan fwyaf o leoliadau ond mi ddylai'r orsaf wefru dim ond cael eu defnyddio mewn lleoliadau sych o dan do

Gwaredu

Dylid cael gwared ar yr holl wastraff electronig yn unol â'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf.

Rhaid ei waredu o fewn y llif gwastraff trydanol ac electronig a pheidio â chael gwared arno yn y llif gwastraff arferol. Mae ailgylchu cynhyrchion gwastraff trydanol yn helpu i warchod adnoddau naturiol ac atal effeithiau andwyol ar yr amgylchedd. Cysylltwch â'ch cyflenwr os bydd angen mwy o wybodaeth arnoch.

